

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth
Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol)
(Cymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
15 Chwefror 2022

1 RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau mewn perthynas â thystiolaeth ddogfennol sy'n ategu ceisiadau am gymorth o dan y Cynllun Llaeth Ysgol. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i'r Cynllun Llaeth Ysgolion ond gadw'r dystiolaeth ddogfennol honno a sicrhau eu bod ar gael i'r awdurdod perthnasol ei gweld. Yn flaenorol, roedd rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ategol gyda'r cais am gymorth.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

3 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir gan Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw(2).

3.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3).

3.3 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn negyddol.

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Cynllun Llaeth Ysgol domestig (yr UE cyn hynny) yn darparu cymorth tuag at gostau llaeth mewn ysgolion. Mae'r polisi ar laeth ysgolion wedi ei ddatganoli, er bod y cynllun yn cael ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig o dan gytundeb asiantaeth gyda Llywodraeth Cymru.

4.2 Tan 2017, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr (ee. ysgolion, awdurdodau lleol a chyflenwyr arbenigol) ymrwymo i gadw dogfennau a oedd yn cefnogi unrhyw gais am gymorth a gyflwynwyd ganddynt, ac i sicrhau bod y dogfennau ar gael i'w harchwilio ar gais yr Asiantaeth Taliadau Gwledig

(1) EUR 2013/1308. Diwygiwyd Erthygl 25 gan O.S. 2019/831. Diffinir "appropriate authority" yn Erthygl 3(5)(c). Mewnosodwyd y diffiniad o "appropriate authority" gan O.S. 2019/821, ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2019/1422.

(2) Mae Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) yn diffinio Gweinidogion Cymru fel yr "appropriate authority" o ran Cymru.

(3) EUR 2002/178. Nid oes diwygiadau perthnasol.

(drwy hapwiriadau). Cynhaliwyd hapwiriadau ar 5% o ymgeiswyr/gwerth taliadau. Roedd gofynion o fewn y Cynllun Llaeth Ysgolion a ddaeth i fodolaeth yn sgil deddfwriaeth yr UE yn 2017 yn peri bod cyfranogwyr sy'n rhan o'r Cynllun yn ymrwmo i gyflwyno'r gwaith papur i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig wrth gyflwyno'u hawliad.

- 4.3 Daeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r casgliad bod y gofynion ychwanegol o fewn y Cynllun Llaeth Ysgolion a ddaeth i fodolaeth yn sgil deddfwriaeth yr UE yn 2017 yn anghymesur ac y byddai'n achosi baich gweinyddol ychwanegol sylweddol heb ychwanegu gwerth i reolau yn y cynllun. Awgrymodd amcangyfrifon y byddai gweithredu'r gofynion newydd yn achosi costau ychwanegol o £307k yn flynyddol i gynllun sydd werth £3.6m. Felly, gwnaed penderfyniad ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig i gadw'r trefniadau rheoli cyn 2017 yn unig.
- 4.4 Mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion yr Alban yn credu bod y dull gweithredu hwn yn parhau i daro cydbwysedd rhwng rheoleiddio cadarn, ar y naill law, a lleihau'r baich gweinyddol i'r ymgeiswyr a'r Asiantaeth Taliadau Gwledig ar y llall, ac maent wedi cytuno y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau i ddiwygio'r gyfraith sy'n gymwys i Loegr a'r Alban i ddileu'r gofynion ychwanegol.
- 4.5 Mewn archwiliad yn 2020, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel y Corff Ardystio, nad oedd y gofynion deddfwriaethol (a gyflwynwyd yn 2017) yn ymwneud â thystiolaeth ddogfennol sy'n ategu ceisiadau am gymorth yn cael eu bodloni, ac argymhellwyd bod y prosesau'n cael eu cywiro i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno.
- 4.6 O ystyried canfyddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y cyfeirir ato ym mharagraff 4.5, ac er mwyn atal canfyddiadau andwyol yn y dyfodol, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu diwygio'r gyfraith yng Nghymru er mwyn cyd-fynd â'r Alban a Lloegr i ategu'r dull gweithredu cymesur hwn mewn perthynas â thystiolaeth ddogfennol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff hapwiriadau barhau gyda sicrwydd cyfreithiol. Er hynny, nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pwerau perthnasol o ran Cymru oherwydd esemptiad ar gais Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o ymadael â'r UE. Er mwyn i'r newidiadau fod yn gymwys i Gymru, bydd rhaid i Weinidogion Cymru wneud set o reoliadau cyfatebol gan ddefnyddio'u pwerau hwy.
- 4.7 Bydd yr offeryn statudol hwn yn sicrhau dull gweithredu cymesur mewn perthynas â chadw dogfennau ar gyfer cyfranogwyr yn y Cynllun Llaeth Ysgol yng Nghymru. Bydd yn gofyn iddynt ymrwmo i gadw dogfennau a allai gefnogi unrhyw gais am gymorth y maent yn ei gyflwyno, ac i sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio. Bydd y newid technegol hwn yn sicrhau y caiff hapwiriadau barhau gyda sicrwydd cyfreithiol.

5 Ymgynghoriad

5.1 Gan nad oes newid mewn polisi, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Unig ddiben yr offeryn hwn yw rhoi sail cyfreithiol i'r trefniadau archwilio presennol. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu cyfyngedig gydag aelodau presennol o'r Cynllun Llaeth Ysgol yng Nghymru rhwng 28 Ionawr 2022 a 7 Chwefror 2022. Ni ddaeth sylwadau nac ymatebion gan gyfranogwyr yn ystod y broses ymgynghori.

6 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw ond yn gwneud newid bach, technegol i'r ffordd y gweinyddir y Cynllun Llaeth Ysgolion. Mae hyn yn gyson â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Cynhaliwyd Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth a daethpwyd i'r casgliad na fyddai effeithiau andwyol ar gystadleuaeth yn y maes hwn o ganlyniad i osod a gweithredu'r offeryn statudol hwn.